PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 6 | Chwefror 8, 2024 | 50c.

# Llongyfarchiadau a diolch

**Daeth dros 50 o aelodau, cyfeillion a theulu'r gweinidog ynghyd i'r Tabernacl, Porthaethwy, fore Sul, 28 Ionawr, a hynny i ddathlu cyrraedd carreg filltir arbennig.**



Sefydlwyd y Parchg J. Ron Williams yn weinidog yn y Tabernacl ar 23 Ionawr 1999. Aeth chwarter canrif heibio ers y diwrnod hwnnw, ac felly rhaid oedd cael dathliad a chyfle i ddiolch iddo am ei waith a'i ofal tyner dros ei braidd.

Cymerodd amryw ran yn y gwasanaeth. Darllenodd Alaw Haf o'r Bregeth ar y Mynydd yn Mathew 5, ac wedi i Owain Bishop ganu unawd swynol, daeth Alaw Glynne ymlaen i arwain y gynulleidfa yn ei gweddi.



*Y rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth ynghyd â Meinir Roberts a Margaret Lloyd (ar y dde), y ddwy a drefnodd y cinio dathlu*

Wedi hynny, cymerodd Carol Ungoed Hughes at yr awenau. Gwahoddodd Margaret Lloyd ymlaen i ddarllen neges e-bost o'r Unol Daleithiau. Yn y neges, roedd Edward Morus Jones, ysgrifennydd y Tabernacl adeg y sefydlu ym 1999, yn llongyfarch y gweinidog ac yn dymuno'n dda iddo ef a'r eglwys.

### Rhodd

Tasg nesaf Carol oedd cyflwyno rhodd i'r gweinidog, sef llechen ac arni ddau englyn, un gan y Parchg John Gwilym Jones a'r llall gan Gwyn M. Lloyd. Paratowyd y llechen gan Gruffudd Tudur. Wedi'r cyflwyniad, daeth Gwyn Lloyd ymlaen i ddarllen yr englynion ac i esbonio'r delweddau a geid ynddynt. Yn union wedyn, daeth Glenys Pritchard ymlaen i gyflwyno blodau i Rhian, gwraig y gweinidog.



Dwy sir mewn priodas arian – a roed
Ar waith mewn dwy gorlan,
Un hynod faes mewn dau fan
I'r addolwyr ar ddwylan.
John Gwilym Jones

Bu cynnal, bu codi calon, – rhoi her
A hwb i ni'n gyson
Drwy waith ac arweiniad Ron
Ar ystyr 'bod yn Gristion'.
Gwyn M. LIoyd

*parhad ar y dudalen gefn*

# Peniel, Caerfyrddin





Ar bnawn Sul 28 Ionawr, daeth dros 30 o aelodau a chyfeillion yr achos o bell (sef Trefdraeth) ac agos, at ei gilydd i drafod 'Y Ffordd Ymlaen' i ni fel eglwys a chynulleidfa. Mewn cyfnod lle mae aelodau mor barod i ddigalonni a gweld yr ochor negyddol o fywyd eglwys, llawenydd yw adrodd bod pawb a ddaeth ynghyd, yn frwd i dorchi llewys, a chydweithio er sicrhau dyfodol tystiolaeth Gristnogol yr eglwys yn y pentre â'r fro.

Trafodwyd cynnwys amrywiol ein gwasanaethau ar yr ail Sul yn y mis, sef y Sul a fydd dan ofal yr aelodau, lle a phwysigrwydd yr ysgol Sul a'r dosbarth Beiblaidd, anghenion teuluoedd ifanc, rôl technoleg gwybodaeth ym mywyd yr eglwys heddiw, sut y medrwn wella'r berthynas a'n gwasanaeth i'r gymuned o'n hamgylch, a llu o awgrymiadau eraill! Cyfarfod arbennig o braf!

Byddwn yn dal i gydaddoli gyda'n chwaer eglwys a'u harweinydd, Alun Lenny ym Mwlch-y-corn.

Camwn i'r yfory'n gadarn ein ffydd yn Nuw!

# MYFYRDOD O'R BEIBL
## Y Beibl a'i bobl: Dafydd

Un o ffigyrau pwysicaf y Beibl yw Dafydd. Mae stori Dafydd yn llawn pegynau. Ar un pegwn rydym yn clywed am ei lwyddiannau, ei dduwioldeb a'i deyrngarwch. Ar y pegwn arall rydym yn clywed am ei fethiannau, ei anffyddlondeb a'i bechodau trychinebus. Er hynny, yr hyn sy'n sefyll allan am stori Dafydd yw nid Dafydd ond Duw. Mae Dafydd yn adnabod Duw ac er gwaetha anffyddlondeb Dafydd, mae Duw yn ffyddlon. Heddiw, mae Duw'r un mor ffyddlon i'w bobl ac mae'n barod i faddau ein beiau.



### Y cefndir

Wythnos diwethaf, buom yn ystyried hanes Ruth yn oes y barnwyr. Mae tipyn o ddŵr wedi mynd o dan y bont ers y bennod dywyll honno yn hanes Israel. Ar ôl cyfnod o gael eu harwain gan griw o farnwyr, dyma'r Israeliaid yn mynnu cael brenin. Mewn gwirionedd, roedd ganddynt frenin yn barod: Duw. Ond gan eu bod mor benderfynol o fod yn debyg i'r cenhedloedd oedd o'u cwmpas, roeddent eisiau brenin dynol.

Brenin cyntaf Israel oedd gŵr o'r enw Saul. Ar y cychwyn, roedd Saul yn frenin go lew. Concrodd elynion Israel gan arwain yr Iddewon i fuddugoliaeth (1 Samuel 9-13). Er hynny, roedd Saul yn falch ac yn anffyddlon; er ei fod yn proffesu â'i wefusau, nid oedd ganddo berthynas real â'r Arglwydd. Oherwydd hyn, penderfynodd Duw dynnu'r orsedd oddi ar Saul ac apwyntio brenin newydd yn ei le (1 Samuel 15). Brenin fyddai'n ei adnabod a'i barchu.

Y brenin ddewisodd Duw oedd bachgen o'r enw Dafydd. Bugail ifanc â gwallt coch oedd Dafydd (1 Samuel 16:12) a mab ieuengaf ffermwr defaid o'r enw Jesse. Ei hen fam-gu oedd neb llai na Ruth y Foabes. Nid oedd Dafydd yn edrych fel y teip i fod yn frenin. Ond, er mor annisgwyl oedd y dewis, dyma oedd dewis Duw.

### Dafydd a Goliath

Yn fuan ar ôl i'r proffwyd Samuel ei eneinio'n frenin (heb i Saul – oedd yn gyndyn i gydnabod ei fod wedi colli'r frenhiniaeth – wybod), dangosodd Dafydd ei fod wirioneddol yn caru'r Arglwydd. Pan roedd byddin Israel yn ofni Goliath a byddinoedd y Philistiaid, gofynnodd Dafydd i'r bobl: 'Pwy yw'r Philistiad dienwaededig hwn, ei fod yn herio lluoedd y Duw byw?' (1 Samuel 17:26). Mae hanes Dafydd yn trechu Goliath yn un cyfarwydd. Yn wahanol i filwyr yr Israeliaid oedd yn ymddiried mewn offer a thactegau milwrol, roedd Dafydd yn ymddiried yn Nuw felly lladdodd Goliath gyda cherrig ei ffon dafl (1 Samuel 17:38-58). Gwaredodd Duw ei bobl trwy achubwr annisgwyl, mewn ffordd annisgwyl.

Yn dilyn buddugoliaeth Dafydd yn erbyn Goliath, surodd Saul gan geisio lladd Dafydd (1 Samuel 18–19). Er i Saul gasáu Dafydd, daeth Jonathan, ei fab hynaf, yn ffrind i Dafydd gan ei helpu i ffoi rhag ei dad.

### Brenin Jwda ac Israel

Yn y pen draw, lladdwyd Saul a'i feibion – gan gynnwys Jonathan – mewn brwydr, a chafodd Dafydd o'r diwedd ei gydnabod fel brenin gan lwyth Jwda (2 Samuel 2). Gwaetha'r modd, er hynny, ni chafodd Dafydd ei gydnabod gan y mwyafrif o lwythau Israel a bu cyfnod o ryfel cartref rhwng Israel a Jwda. Er hynny, yn 2 Samuel 5, daeth Israel gyfan i gydnabod mai Dafydd oedd eu brenin.

Ar gychwyn ei deyrnasiad, roedd Dafydd yn frenin da. Arweiniodd Israel mewn ffordd ddoeth gan ennill nifer o fuddugoliaethau yn erbyn ei elynion. Yr hyn sydd fwyaf amlwg am Dafydd oedd ei fod yn caru'r Arglwydd. Dafydd yw awdur nifer o salmau'r Hen Destament ac mae ei gariad at Dduw mor amlwg yn ei gerddi. Yn wir, geiriau cyntaf Salm 18 yw: 'Caraf di, O Arglwydd, fy nghryfder. Yr Arglwydd yw fy nghraig, fy nghadernid a'm gwaredydd.'

**Gwilym Tudur**

*Bydd ail rhan o'r erthygl yma yn y rhifyn nesaf*

# CWBL DDILYS

Geiriadur ar-lein yw Geiriadur Merriam-Webster. Mae'r cwmni Americanaidd Merriam-Webster yn adnabyddus am ei lyfrau cyfeirio a'i eiriaduron. Dyma'r cwmni hynaf yn America sy'n cyhoeddi geiriaduron.

Yn ôl y cwmni, gair y flwyddyn ar gyfer 2023 yw 'authentic' neu ddilys/gwir yn Gymraeg. Mae'n hen air sydd wedi bod o gwmpas ers canrifoedd ac wedi'i ddefnyddio mewn sawl cyd-destun. Mae'r defnydd o'r gair yn Saesneg wrth chwilota ar-lein wedi cynyddu yn oes y deallusrwydd artiffisial (AI) ble mae'n anodd dweud yn aml iawn beth sy'n ffug a beth sy'n wir. Mae'r ffin rhwng y ffug a'r gwir yn gallu bod mor annelwig. Yn anffodus, mae llawer o wybodaeth ffug a chyfeiriadau anghywir ar y rhyngrwyd.

Mae mwy a mwy o bobl yn edrych am ddilysrwydd yn eu perthynas â thechnoleg ac mewn bywyd yn gyffredinol y dyddiau hyn. Rydyn ni'n gynyddol roi gwerth ar yr hyn sy'n real, yn ddidwyll yn ein gwaith, yn ein harweinwyr, yn ein profiadau ac yn ein cynnyrch. Dymuniad pobl yw dod i gyswllt â rhywrai neu bethau sy ddim yn ffug ac mae hynny'n gallu bod yn anodd mewn byd sydd mor llawn o ymhonwyr!

Wel, mae yna newyddion da o lawenydd mawr ar ddechrau 2024 i bob un ohonom. Mae'n chwilota ni am ddilysrwydd drosodd! Rydyn ni newydd ddathlu geni Iesu, yr enghraifft berffeithiaf o ddilysrwydd – dathlu Duw yn dod i'n byd a'n bywyd yn Iesu Grist. Dywed Iesu amdano'i hun: 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd.'

Mae Iesu'n ddigyfnewid. Gallwn ymddiried yn llwyr ynddo yng nghanol tywyllwch ein byd a thwyll a dichell digidol ein hoes.

**Alun Charles.**

(allan o *Papur Priordy*, rhifyn 373 Papur Ionawr 2024)



# Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 8 2024 RHIF 154


## Eisteddfod yr Urdd, Maldwyn, 27 Mai–1 Mehefin 2024: Pabell yr Eglwysi a'r Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul am 7 o'r gloch nos Fercher, 6 Mawrth, yng Nghapel Moreia, Llanfair Caereinion, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni.

Rydym yn edrych ymlaen at ddechrau cynllunio ar gyfer yr eisteddfod, a gynhelir rhwng 27 Mai a 1 Mehefin ar gyrion pentref Meifod ym mwynder Maldwyn. Yn ôl yr arfer, bydd gan yr enwadau stondin/uned yno, ynghyd ag uned arall gan Gymorth Cristnogol.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib gyda'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

## Y Sioe Fawr, Llanelwedd, 22–5 Gorffennaf 2024: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru am 2.30 o'r gloch bnawn Mercher, 6 Mawrth 2024, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y Sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'n stondin.

Cynhelir y Sioe yn ôl ei harfer yn Llanelwedd ar gyrion Llanfair-ym-Muallt rhwng 22 a 25 Gorffennaf, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib gyda'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

## EXODUS!


### Deunydd Sul Cyfiawnder Hiliol, 11 Chwefror 2004

(neu unrhyw bryd arall fo'n addas i'ch eglwys)

Mae adnoddau Cymraeg a Saesneg ar gyfer nodi Sul Cyfiawnder Hiliol 2024 yn archwilio symudiad pobl o'u mamwlad i'r lleoedd y maent yn eu galw'n gartref bellach. Archwilir y cymhellion y tu ôl i'r mudiad hwn – y teithiau a wnaed, a'r derbyniad neu'r croeso a geir wrth gyrraedd.

Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan Uchel Gomisiynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR), 'Mae o leiaf 108.4 miliwn o bobl ledled y byd wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi. Yn eu plith mae bron i 35.3 miliwn o ffoaduriaid, ac mae tua 41 y cant ohonynt o dan 18 oed.'[1]

Mae Ewrop yn un o'r llefydd hynny yn y byd y mae pobl wedi bod yn ffoi iddo am ddiogelwch. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhanbarth wedi gweld newydd-ddyfodiaid yn dianc rhag rhyfel a chynnwrf yn Afghanistan, Syria ac Wcráin – y tair gwlad â'r nifer mwyaf o ffoaduriaid yn y byd.[2] Yn yr un modd, mae gwrthdaro hirfaith mewn rhannau o Affrica, y Dwyrain Canol ac Asia wedi




bod yn 'gwthio' ffactorau ar gyfer symud i Ewrop.

Er nad yw Prydain bellach yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, mae ei chysylltiadau â chyfandir Ewrop yn parhau i fod yn annileadwy ac, ochr yn ochr ag Iwerddon, fe'i hystyrir yn 'gyrchfan' i lawer sy'n ceisio lloches. Ar ben hynny, dros y blynyddoedd diwethaf mae'n ymddangos fel pe bai agweddau wedi caledu ynghylch 'mewnfudiad' i'r glannau hyn. Gellir dadlau bod yr argyfwng ffoaduriaid byd-eang, oportiwnistiaeth wleidyddol ac argyfwng costau byw wedi newid y naratif, yn enwedig tuag at y rhai o'r tu allan i Ewrop sy'n ceisio noddfa o'i mewn.

O ystyried yr argyfwng, nod yr adnodd Sul Cyfiawnder Hiliol hwn yw taflu goleuni Beiblaidd ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, a'r ffordd y mae Cristnogion yn gwneud gwahaniaeth o fewn y meysydd hyn, ac y gallant wneud gwahaniaeth. Mae hwn yn fater cyfiawnder hiliol oherwydd, ar wahân i Wcráin, mae gan y rhan fwyaf o'r rhai sy'n ceisio lloches wynebau Du a Brown. Yn fwy na hynny, mae'n fater rhyng-ffydd/cyfiawnder crefyddol oherwydd nid yw llawer ohonynt yn Gristnogion.

Nod yr adnodd hwn yw hysbysu, herio ac ysbrydoli pawb i weddïo a gweithredu, fel bod lletygarwch ac nid gelyniaeth yn dod yn agwedd gyffredinol at y rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth, perygl, tlodi a rhyfel.

Gellir dod o hyd i'r deunyddiau Cymraeg i'w lawrlwytho wrth ddilyn y ddolen hon: Sul Cyfiawnder Hiliol 2024 (ctbi.org.uk)

1 'How many refugees are there around the world?', UNHCR
2 'Forced to flee: Top countries refugees are coming from', World Vision

*Richard Reddie*
*Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon*
*Cydlynydd, Rhwydwaith Ffoaduriaid yr Eglwysi*

# Cyfarfod Sefydlu yng Ngofalaeth Bro Colwyn



O'r chwith i'r dde: Owain Davies, Ifor Jones, Iwan Llewelyn Jones, Helen Jones, Trefor Lewis, Alan Spencer a Dilwyn Price

Nos Fercher, 10 Ionawr, cynhaliwyd gwasanaeth sefydlu'r Parchedig Helen Wyn Jones, gweinidog Gofalaeth Colwyn, yn weinidog ar Ebeneser, Eglwys yr Annibynwyr, Hen Golwyn. O hyn ymlaen bydd Ebeneser yn rhan o Ofalaeth Bro Colwyn, dan ofal y Parch. Helen Wyn Jones.

Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Parch. Iwan Llewelyn Jones, Cricieth, oedd â chysylltiad personol ag Ebeneser oherwydd bu ei dad yn weinidog ar yr eglwys am gyfnod. Ar ddechrau'r gwasanaeth croesawyd y Parchedigion Owain Davies, Trefor Lewis, Ifor Jones ac Alan Spencer, Llywydd Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon, ynghyd â swyddogion Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy, sef Mr Huw Roberts, llywydd, a Mrs Bethan Trenchard, ysgrifennydd.


Yn ystod y gwasanaeth holwyd Helen am ei chyffes, ei chred a'i galwad gan y Parch. Iwan Llewelyn Jones, a chafwyd atebion cadarnhaol ganddi. Cafwyd neges bwrpasol, rymus ac ysbrydoledig gan y Parch. Iwan Llewelyn Jones i gloi'r cyfarfod.

Yn dilyn hyn, aeth y gynulleidfa deilwng o aelodau Ebeneser ac eglwysi'r ofalaeth i'r ysgoldy i gael paned a chyfle i gymdeithasu. Yno croesawyd aelodau Ebeneser i Ofalaeth Bro Colwyn gan Nerys Cossey, llywydd yr ofalaeth.

Bu aelodau eglwysi rhyddion Bae Colwyn yn cydaddoli ers blynyddoedd lawer, a bydd cyfle o hyn ymlaen i gydaddoli'n amlach a chydweithio'n fwy clòs dan arweiniad ein gweinidog. Roedd y noson yn achlysur hapus a chalonogol iawn i aelodau'r ofalaeth ynghyd ag aelodau eglwys Ebeneser.

*Nerys Cossey*

# Cofio Gareth Lloyd Jones



Gyda thristwch y clywsom y newyddion am farwolaeth y Parchedig Ddr Gareth Lloyd Jones, Llandegfan, rai dyddiau'n ôl. Dros y blynyddoedd bu wrthi'n ddyfal yn addasu ac yn cyhoeddi llu o lyfrau diwinyddol, gan gynnwys y gyfres Dehongli … a fu'n faes llafur gwersi oedolion yn ein hysgolion Sul. Tynnwyd y llun union flwyddyn yn ôl ar achlysur cyhoeddi'r gyfrol *Dehongli Bywyd Moses*, y bedwaredd ganddo yn y gyfres honno. Bydd yr olaf yn y gyfres yn cael ei gyhoeddi'r mis nesaf, sef *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*.

Yn enedigol o Chwilog yn Eifionydd, ac wedi treulio cyfnod yn astudio diwinyddiaeth yng Nghymru, Caergrawnt a Jerwsalem, fe aeth i Goleg Yale yn America i ddarlithio ac i wneud ymchwil bellach. Treuliodd amser yn darlithio yng Nghaergrawnt, cyn dod yn ôl i ogledd Cymru, gan ymuno â'r adran ddiwinyddiaeth yn y brifysgol yno yn 1977, a dod yn bennaeth yr adran honno. Roedd hefyd yn Ganon Ganghellor yng Nghadeirlan Bangor, a gwasanaethodd mewn eglwysi a chapeli ar hyd a lled y wlad. Cyhoeddodd amryw o gyfrolau ysgolheigaidd i weisg Saesneg, a llu o gyfrolau Cymraeg i Wasg Prifysgol Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair.

Cofiwn am ei briod annwyl, Gwyneth, ei ferch, Siân, a'r teulu oll yn ein gweddïau. Cynhelir gwasanaeth o ddiolch am ei fywyd ddydd Iau, 15 Chwefror am 2.30 o'r gloch yn Eglwys y Santes Fair, Porthaethwy.

A ROCHA UK
Caring for God's Earth

## Eco-eglwysi – sesiynau cydenwadol

**Eglwys Fethodistaidd Wrecsam,**
**Stryd Regent, Wrecsam**
**Dydd Mercher, 21 Chwefror**
**Coffi am 1.45pm, i ddechrau am 2 o'r gloch**

**Eglwys Fethodistaidd y Drenewydd,**
**Lôn Gefn, y Drenewydd**
**Bore Iau, 22 Chwefror**
**Coffi am 10.15, i ddechrau am 10.30 o'r gloch**

Ymunwch â ni i edrych ar Gynllun Eco-eglwysi (Eco Church). Dewch i ddysgu am fwriad y rhaglen, a sut i fynd ati i ymuno a gweithredu. Bydd cyfle i glywed profiad rhai yn yr ardal sydd wedi ymuno â'r cynllun ac eisoes wedi derbyn gwobr. Cyfarfod anuffurfiol yw hwn, a bydd cyfle i archwilio, gofyn cwestiynau, sgwrsio, a dysgu mwy am sut i ofalu'n well am y greadigaeth fel capeli ac eglwysi.


Croeso cynnes i chi i gyd!

**Delyth Higgins**
*Swyddog Eco Church- Cymru*
*A Rocha UK*

delyth.higgins@arocha.org

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 20**
**Pregethu**
**Sul, 11 Chwefror**

**Gweddi**
Arglwydd Dduw, helpa fi i feddwl yn ystod y myfyrdod hwn am bregethwyr y bu i mi eu clywed. Diolch am yr amrywiaeth doniau yn ein pulpudau – rhai yn lleisiau amlwg ac eraill yn bobl dawel a distadl, ond yr un mor bwysig ac effeithiol i ti. Amen.

**Darlleniad – Actau 18: 24–8** ‘Apolos yn Pregethu yn Effesus’

**Cyflwyniad**
Pan fyddwn yn ystyried gwaith yr eglwys ac yn nodi bod yr eglwys yn brysur, mae perygl i ni anghofio am briod waith yr eglwys, sef addoli a phregethu, gweinidogaethu a chenhadu. Roedd yr Iddewon wedi etifeddu trefn o grefydda oddi wrth eu cyndadau a fyddai’n rhoi pwyslais ar addoli. Ers y cyfnodau cynnar, roeddent yn arfer adrodd salmau a llafarganu deunydd gweddigar. Byddai’r proffwydi’n cyfarch pobl ‘yn enw’r Arglwydd’ ac yn rhoi materion y dydd yng nghyd-destun natur ac amcan Duw. Onid felly y bu’r proffwyd erioed? Gwelid Iesu fel athro teithiol: nid ef oedd y cyntaf ac nid ef oedd yr olaf i gyflawni swyddogaeth felly. Byddai gan y werin ddiddordeb yn neges y proffwydi, ac roedd yr offeiriaid a’r werin fel ei gilydd yn ‘disgwyl y Meseia’.

Yn Llyfr yr Actau clywn am bregethu’r Apostolion yn cyhoeddi’r gwirionedd am Dduw yn Iesu Grist. Gair pwysig y drafodaeth Feiblaidd yw ‘kerugma’ a nodir enghreifftiau ohono yn yr Actau. Dangosodd Luc fod Paul yn pregethu hefyd, a gwelir enghraifft amlwg o hynny yn Actau 17, ac yntau yn Athen wedi codi ei destun o arysgrif ar un o’r allorau wrth ymyl y ffordd ‘I’r Duw nid adwaenir’. Bu pregethu yn rhan ganolog o fywyd a thystiolaeth yr Eglwys ar hyd y canrifoedd ac ar draws y traddodiadau enwadol. Erys yr un swyddogaeth heddiw, a bydd Duw o hyd yn annog rhywrai o’r newydd i gyhoeddi ei air i bobloedd daear.

**Myfyrdod**
Mae gan holl deulu’r ffydd ryw ddawn i’w defnyddio yng ngwaith yr eglwys, ac nid pawb sydd â doniau fel y rhai a welwyd ym mywyd Daniel Rowland, Martyn Lloyd-Jones a Martin Luther King. Ceir enghreifftiau lu o bregethwyr eneiniedig, a phrin bod modd disgwyl i unrhyw gyfnod gytuno ar y doniau amlycaf a welwyd yn eu gwledydd.

Yn ystod y mis hwn, bydd y Parch. Denis Young, un a anwyd yng Ngheredigion, yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Bu’n gweinidogaethu ym Morgannwg, Myrddin a Môn, a bellach mae wedi dychwelyd i fyw yn Aberystwyth, i gael bod yng nghwmni Llinos, ei ferch. Tybed sawl gweinidog a gyrhaeddodd y garreg filltir honno, ac wedi cael y cyfle i bregethu â’r fath arddeliad ar draws y degawdau? Diolchwn am bob pregethwr, beth bynnag ei oed, boed wryw neu fenyw, llenyddol neu werinol, esboniadol neu efengylaidd; maent oll yn defnyddio’u doniau amrywiol i dystio i’w profiad o Dduw yng Nghrist yn ‘achub gwael golledig euog ddyn’.

Bydd rhai’n debygol o ddweud eu bod fel Aaron, heb y ddawn i siarad yn gyhoeddus. Er hynny, gall pawb ddefnyddio’i ddawn i siarad, a hynny nid i gynulleidfa ffurfiol, ond dros baned mewn caffi neu ar adeg briodol yn y gweithle neu mewn man hamdden. Bydd y mwyafrif yn medru sôn am dywydd y tymor neu newyddion y dydd, a gall pawb rannu rhywbeth o brofiad oedfa neu ddarn a ddarllenwyd am Iesu Grist. Nid gwaith i bobl hyfforddedig yw rhannu profiad a dwyn tystiolaeth, ond gellir ei weld fel cyfle i gyfrannu i fwrlwm bywyd bob dydd pawb. Term gafaelgar y Parch. Jack Brown, cyn-lywydd y Bedyddwyr yn Lloegr, oedd ‘gossiping the gospel’ – ‘cloncan am Iesu’, ac mae’r reddf i gloncan yn perthyn i’r mwyafrif ohonom.

**Gweddi**
Diolch, Arglwydd, am y ddawn i sgwrsio a rhannu ag eraill brofiadau bywyd a thrafod newyddion y dydd. Helpa ni o’r newydd i rannu ag eraill beth yw ein profiad ohonot, ac i wneud hynny yn llawen ac yn anffurfiol. Cofiwn o hyd mai pregeth fwyaf pob un yw ei ffordd o fyw yn y byd. Boed i’m bywyd i fod yn llawn ohonot ti. Amen.

**Cwestiynau i’w hystyried**
1. Nodir bod Apollos wedi dechrau ag un bregeth yn unig yn ei fynwes. Beth dybiwch chi oedd ei neges, a beth yw ei neges yn nhermau heddiw?
2. Sylwn fod y gŵr a’r wraig wedi cael eu harwain i’w feithrin ymhellach yn y ffydd. Pwy sy’n gwneud hynny heddiw?
3. Mewn nifer o wledydd heddiw, fel Pacistan a Sudan, mae yna erlid ar Gristnogion. Pe byddai hynny’n digwydd yng Nghymru, a fyddem yn barod i wynebu trais a thlodi oherwydd bod Iesu yn fyw i ni?
4. A fu gormod o bregethu moesoldeb yn ein cyfnod ni, a dim digon o ‘iachawdwriaeth’?
5. Meddyliwch am un person rydych yn ei (h)adnabod, ac ystyried beth fyddai eich neges graidd o dystiolaeth iddi hi/iddo ef.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 11 Chwefror am 7.30yh**
Y Grawys
Bydd Nia yng Nghaerfyrddin i gwrdd â theuluoedd sy’n rhoi hunan-aberth ar waith i helpu banc bwyd yn nhymor y Grawys. A chawn fwynhau canu bendigedig o Gapel Gellimanwydd, Rhydaman.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 11 Chwefror, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 11 Chwefror, am 12yp**
Oedfa dan ofal Dewi Tudur, Talsarnau

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Gweddi 1

Mae gweddïo yn rhywbeth eithriadol o bwysig yn y ffydd Gristnogol. Hanfodol. Mae pob Cristion i weddïo yn gyson ond oherwydd nad oes gennym batrymau gweddi haearnaidd y mae perygl i ni fynd yn gwbl lac ac esgeulus mewn gweddi. Mae'r Mwslemiaid yn gweddïo yn ddeddfol 5 gwaith y dydd ar amserau penodol. Dyma'r enwau ar eu gweddïau dyddiol: Fajr (gwawr), Dhuhr (hanner dydd) Asr (pnawn) Maghrib (machlud) Isha (nos). Ond nid oes gennym ni fel Cristnogion amserau penodedig i weddïo. Felly mae'n bwysig ein bod fel Cristnogion yn meithrin disgyblaeth a phatrymau.

## Beth yw gweddi?

Yn syml gweddi yw siarad gyda Duw. Cynnal sgwrs gydag ef. Mae Duw wedi ein creu i fyw mewn perthynas ag ef. Yn Genesis cawn y darlun fod Duw yn creu popeth ac yn rhoi pobl i fod yn gyfrifol dros y cwbl mewn cydweithrediad ag ef. Mae Adda ac Efa gyda Duw yn edrych ar ôl y cread ac yn amlwg mae perthynas gariadus rhyngddynt. Dyma yw ein cyflwr naturiol. Y crëwr a'r creaduriaid yn cyfathrebu mewn perthynas o gariad a diolchgarwch. Beth oedd testun y sgwrs? Ni allwn ond ddychmygu. Ond yn y berthynas gyda Duw mae cyflawnder a hapusrwydd. Fel hyn mae pethau i fod. Yma, gyda Duw mae paradwys, tangnefedd, dedwyddwch a chyflawnder.

Ond yna mae'r chwalfa yn dod trwy anufudd-dod. Dywed pobl nad ydynt am gadw'n ffyddlon i'w crëwr ac nid ydynt yn credu fod y berthynas gyda Duw yn ddigon i'w bodloni. A'r hyn sy'n digwydd yw bod y berthynas rhwng pobl a Duw a'r cyfeillgarwch yn cael ei chwalu a'r bendithion yn cael eu llygru. Aethant i gredu bod man gwyn man draw, heb Dduw. Onid dyna yw ein hanes bob amser?

Yr hyn mae Duw yn ei wneud yn Iesu yw adfer y berthynas. Dod a ni yn ôl trwy'r hyn wnaeth Iesu i berthynas ag ef. Mae Cristnogaeth yn eithriadol o syml ac mae gweddi'n arwydd fod ein perthynas gyda Duw wedi ei hadfer trwy Iesu.

## Effaith gweddi

Dyma rai pwyntiau am weddi:

1. **Wrth weddïo rydym yn cydnabod bodolaeth a phresenoldeb Duw.** Nid ydym yn gweddïo ar ddim nad ydym yn credu sy'n bodoli nac yn gwrando arnom. Felly, mae gweddi o bob math yn fynegiant o'n haddoliad o Dduw. Mae Ef yn haeddu ein canmoliaeth, ein hamser a'n cariad.

2. **Wrth weddïo rydym hefyd yn ildio ein hunain iddo Ef a'i gydnabod yn Arglwydd.** Deuwn yn ymwybodol o fawredd a phresenoldeb yr Arglwydd a rhoddwn ein bywydau yn ei ddwylo Ef. Cydnabyddwn mai ei eiddo Ef ydym. Ti sydd piau ni, dy eiddo di ydym. E.e., Salm 100

> [3] Cyffeswch mai'r ARGLWYDD sydd Dduw;
> fe ydy'r un a'n gwnaeth ni,
> a ni ydy ei bobl e –
> y defaid mae'n gofalu amdanyn nhw

Ac yn hyn mae teimlad o ddiogelwch a sicrwydd. Duw bia fi, nid y byd, nid y tywyllwch, nid yr un drwg, ond Duw, mae o yn fy ngharu i, mae wedi fy mhrynu yn Iesu ac mae popeth yn iawn beth bynnag sydd yn digwydd.

3. **Wrth weddïo rydym yn cael ein moldio i ewyllys Duw.** Yn aml deuwn a'n rhestr weddi gerbron Duw. Gwna hyn llall ac arall Arglwydd ac fe fydd fy mywyd i yn well. Ond nid pwrpas gweddi yw ein bod ni yn rhoi cyngor i'r Duw perffaith a hollalluog beth ddylai ei wneud, ond yn hytrach ein bod ni yn caniatáu i Dduw ein newid fel ein bod yn plygu i'w ewyllys.



Mae gan Elfed frawddeg syml ond arwyddocaol iawn yn ei emyn ar weddi. (*C. Ff.* 717). Fe ddywed fod treulio munud yng nghwmni Duw yn newid gwerth y byd.

> I dawel lwybrau gweddi,
> O Arglwydd, arwain fi,
> rhag imi gael fy nhwyllo
> gan ddim daearol fri:
> **mae munud yn dy gwmni**
> **yn newid gwerth y byd**
> yn agos iawn i'th feddwl
> O cadw fi o hyd.

Mae gweddi yn ein newid ni ac yn newid ein hagwedd at y gymdeithas a'r bobl sydd o'n cwmpas gan ein bod yn treulio amser ym mhresenoldeb y cariad mwyaf. Ac yng ngwres y cariad fe gawn ein llenwi gan y cariad.

**Her:** bob dydd rhowch 5–10 munud i weddïo ar yr Arglwydd. Cymerwch salm, adnod neu emyn i feddwl amdano er mwyn rhoi testun gweddi i chi. Os na allwch feddwl am ragor i'w ddweud, eisteddwch yn dawel gan fod yn ymwybodol o bresenoldeb Duw.


**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

Hysbyseb Swydd

**Ysgrifennydd Gweinyddol**

Llawn-amser 37.5awr yr wythnos

Chwilio am her? Awydd newid gyrfa? Dyma gyfle cyffrous i berthyn i dîm blaengar sy'n gweinyddu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ydych yn meddu ar y sgiliau i reoli cyllid a chynnig arweiniad i'r Undeb ar faterion ariannol a statudol?

Oes gennych y ddawn i ddatblygu perthynas gydag eglwysi ar faterion yn ymwneud â'u cyllid, statws elusennol a chyfrifoldebau statudol?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd, cysylltwch â'r

Ysgrifennydd Gweinyddol
Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes
Glanyrafon, Bro Abertawe,
ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888
E-bost: ann@annibynwyr.cymru

**Dyddiad cau: 12 Chwefror 2024**

# Barn Annibynnol

## Ail gyfle

A gawsoch chi ail gyfle erioed? Neu'n bwysicach fyth, a roddoch chi ail gyfle i rywun arall? Gallwn dderbyn ail gyfle mewn sawl ffordd – mewn arholiad, prawf gyrru, neu yn ein perthynas ag eraill. 'Coleg yr Ail Gyfle' y gelwid Coleg Harlech gynt, gan ei fod yn cynnig siawns arall. Fel yn ein bywyd ysbrydol, nid sawl cyfle a gawsom ni sy'n bwysig, ond beth a wnaethom o'r hyn gynigiwyd i ni.

### Tudalen lân

Â'r addurniadau Nadolig yn yr atig ers tro (fel y dywed mwy nag un bardd Cymraeg) a chyfnod y Grawys ar ddod, mae'n hen gymhariaeth fod y flwyddyn yn agor o'n blaen fel llyfr ysgrifennu newydd, heb na blot na chroesiad allan na phlygiadau yn ei gorneli.

> I Dduw y dechreuadau rhown fawl
> am ddalen lân,
> am hyder yn y galon ac ar y wefus
> gân ...

Mae sawl hanesyn a dameg yn y Beibl yn dangos mai pobl yr ail gyfle ydyn ni, drwy ras a maddeuant Duw. Daeth y Brenin Dafydd yn frenin mawr ar Israel wedi i Dduw yn ei gariad roi sawl siawns iddo. Abraham a Sara, y Brenin Manasseh, Moses, Jonah a Rahab – i gyd wedi derbyn ail gyfle gan Dduw. Yn y Testament Nwydd cawn hanes y teithiwr a syrthiodd i blith lladron yn cael help o gyfeiriad annisgwyl; y Mab Afradlon yn cael ei dderbyn yn ôl gan ei dad; y ddafad golledig yn cael ei harbed gan fugail gofalus a'i ymchwil di-ildio am yr un a grwydrodd. Daeth Iesu i fywyd diflas Sacheus, ac er i Pedr wadu ei Arglwydd, ef oedd y graig yr adeiladodd Crist ei eglwys arni.



### Gras Duw

Saif pob un o'r enghreifftiau hyn yn arwyddion o ras Duw tuag at ei bobl a chawn ein hatgoffa mai trwy ras yr ydym yn gadwedig, nid trwy ddim a wnawn ni i ennill unrhyw haeddiant. Mae Duw yn hael gyda'i gyfleoedd er mwyn i ni sefydlu perthynas iawn gydag Ef. Fel y dywed un diwinydd Americanaidd: 'God knows that we mess up even our



second chance fairly quickly.' Mae Duw'n gwybod yn iawn am ein gwendidau ac yn ein caru er gwaethaf – ac efallai oherwydd – y math o bobl amherffaith ydyn ni.

Wrth y Rhufeiniaid y dywedodd yr Apostol Paul:

> ... mae rhai yn gwneud popeth o le: ymddwyn yn anghyfiawn, yn faleisus, yn farus, yn hunanol, yn cenfigennu, cecru, twyllo, enllibio, yn haerllug, yn snobyddlyd a hunanbwysig heb barch at neb.

Ac i bobl galon-galed o'r fath mae rhybudd Paul yn glir – dyma gyfle i newid a gwella tra bod amynedd Duw yn parhau tuag atom.

### Dod yn agos ato

Mae'n siŵr bod rhoi – a derbyn – ail gyfle yn debyg iawn i edifeirwch a maddeuant. Drwy aberth Crist y mae Duw yn adennill ei deyrnas; ein braint ni yw credu ynddo a dod yn agos ato. 'Cael yn ôl o borth marwolaeth' medd Harri Webb am adferiad y Gymraeg, ac felly y mae yn ein bywyd ysbrydol os derbyniwn faddeuant ac ildio i drefn Duw.

Pantycelyn sy'n dweud:

> Yn Eden cofiaf hynny byth,
> bendithion gollais rif y gwlith ...
> Ond buddugoliaeth Calfarî
> enillodd hon yn ôl i mi ...

tra bod mwy o flas y pridd ar ddiwinyddiaeth Hannah Joshua:

> ... y maglau wedi eu torri,
> a'm traed yn gwbwl rydd;
> os gwelir fy fel hynny,
> tragwyddol foli a fydd.

**Eurig Davies**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


## Saron Creunant

Eleni y mae eglwys Saron yn dathlu 120 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

1904–2024

Fe'ch gwahoddwn yn gynnes i ymuno gyda ni am
Sul o Fawl/Cymanfa ar yr
31 Mawrth am 4 o'r gloch
Sul y Pasg.

Croeso cynnes i bawb.



✦ Cyfres Newydd ✦ Cyfle Newydd ✦ Ffurf Newydd ✦

Cyfle gwych i ymuno mewn cyfres o chwe sesiwn fydd yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd eglwysig.

✦ Gweddïo ✦ Arwain Addoliad ✦ Pregethu ✦ Beth yw Eglwys ✦
✦ Gwaith Plant ac Ieuenctid ✦ Gwedd Ddigidol Eglwys ✦

Dyddiadau:
08/01 22/01 05/02 19/02 04/03 18/03

Amser:
7:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr.

Lleoliad:
Bydd modd ymuno yn y sesiynau hyn drwy fynychu eich Hwb Hyfforddi lleol. Manylion llawn pob lleoliad ar y daflen wybodaeth.



Awydd ymuno? Croeso cynnes i bawb!

Trefnir y sesiynau hyn fel rhan o gynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | Gwybodaeth pellach: carwyn@annibynwyr.cymru

| Dyddiad | Testun | Arweinydd |
|---|---|---|
| Chwefror 19 | Beth yw Eglwys | Parchedig Carwyn Siddall |
| Mawrth 4 | Gwaith Plant ac Ieuenctid | Parchedig Owain Davies |
| Mawrth 18 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

Cynhelir pob sesiwn rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Llongyfarchiadau a diolch – parhad

### Neges a Chymun

Diolchodd y gweinidog i'r eglwys a'r gynulleidfa am y rhoddion ac am y dymuniadau da a fynegwyd. Yna, aeth ymlaen i gyflwyno neges seiliedig ar Salm 25. Mae tri gair i'w cofio, meddai. Yn gyntaf, mae Duw yn Un y dylid ei ADDOLI. Yn ail, y mae'n rhoi i ni ARWEINIAD, ac yn drydydd, mae Duw hefyd yn AMDDIFFYN ei bobl ymhob amgylchiadau.

Arweiniodd y neges hon at weinyddu'r Cymun. Dosbarthwyd yr elfennau gan Alaw Haf, June Williams, Alaw Glynne a Carol Ungoed Hughes. Glenys Pritchard oedd wrth y piano trwy gydol y gwasanaeth, ac yr oedd pob un o'r emynau a ganwyd hefyd wedi eu canu yn y gwasanaeth sefydlu ym 1999.





Wedi'r gwasanaeth, aethpwyd ymlaen i westy Nant yr Odyn yn Llangristiolus lle y cafwyd gwledd i ddathlu'r achlysur. Mawr oedd ein llawenydd wrth gyd-fwyta a dathlu gyda'n gilydd. Bydd hwn yn ddiwrnod y byddwn yn ei gofio am amser maith, a diolch diffuant i bawb fu ynglŷn â'i drefnu ac a gymerodd ran ynddo. Ac, wrth gwrs, llongyfarchiadau a diolch i'n gweinidog, a boed bendith arno ef a'i deulu.

**Geraint Tudur**

# BEDYDDIO TRI YN LLANYBRI

Cafwyd gwasanaeth hyfryd ar fore Sul 21 Ionawr yng Nghapel Newydd, Llanybri pryd y bedyddiwyd Owain, Efan a Martha gan Dr Dai Lloyd, Abertawe.

Mae Owain ac Efan yn blant i Geraint a Nerys, Hafod y Gân, Llanarthne a Martha yn ferch fach i Ben ac Angharad, Trehyrne, Llangynog. Pob bendith ar y ddau deulu i'r dyfodol.




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*